Rhifyn Mawrth_Tud 8 Mehefin.qxd 05/02/2015 15:05 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 36. RHIF 10 MAWRTH 2015 50c

# Noson Gofiadwy yn Lerpwl ar Islam

## *gan Un oedd Yno*

Ar nos Lun 19 Ionawr, dan nawdd Urdd Colegau Cymru cawsom noson anarferol a diddorol pryd y darlithiwyd ar Islam yn y Ganolfan gan Dr. Adel Ahmed, Moslem sydd yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Hope, Lerpwl. Roedd y Ganolfan yn llawn. Wrth ei gyflwyno, dywedodd y Llywydd, Dr. D. Ben Rees, mai Prifysgol Hope yw'r unig Brifysgol Gristnogol yn Ewrop. Dr. Ahmed yw Dirprwy Ganghellor y Brifysgol hon. Daw yn wreiddiol o'r Aifft ac mae'n byw yma yn Lerpwl gyda'i briod a'i ddwy ferch. Dechreuodd Dr. Ahmed trwy ddweud i grefydd Islam gael ei chyflwyno i'r byd gan Mohamed. Eu "Beibl" yw'r Corân (Koran), Nid yw pob Moslem yn dilyn Islam.

Gellir gweld Islam fel crefydd, fel addysg ac fel ffordd o fyw i arwain pobl i berthynas gyda'u Duw (Allah). Mae rheolau gan y grefydd hon fel cerwch eich gilydd a gwnewch yn siwr fod parch a heddwch rhyngoch chi ac eraill. Nid yw Moslemiaid i fod i yfed alcohol, er y bydd rhai yn gwneuthur hynny. Credant mai'r pum proffwyd olaf oedd Noa, Abraham, Moses, Iesu a Mohamed, a fod rhai ohonynt wedi dod er mwyn eu pobl eu hunain, ond fod Mohamed wedi dod i'r holl fyd.

Mae pum deddf gan Islam –

1. **Nid oes ond un Duw (Allah)**
2. **Y Weddi.** Mae eu gweddïau yn cadarnhau ac yn cryfhau eu perthynas ag Allah.
3. **Elusen**. Rhaid rhoddi 2.5 o'u harian i elusen bob blwyddyn.
4. **Ymprydio**. Rhaid ymprydio yn ystod tymor Ramadan.
5. **Cyfraith Sharia.** Maent yn edrych ar Sharia fel Rheolau'r Ffordd Fawr (Highway Code) sydd yn cwmpasu eu perthynas ag Allah ac yn cynnwys moeseg (ethics) a moesoldeb.

Dywedodd y proffwyd nad yw gwên yn costio dim. Os nag oes ganddynt arian i'w roi i elusen, maent i adael i'w gwên **fod** yn elusen. Rhaid iddynt adeiladu pontydd ymysg ei gilydd i ddechrau, yna gyda phobl eraill. *Does dim cyfiawnhad o gwbl dros frawychiaeth (terrorism). Mae brawychwr yn droseddwr. Rhaid i ni i gyd ddelio gyda'r sialensiau dychrynllyd sydd yn ein gwynebu heddiw.* Dywedodd Dr. Ahmed fod yr hyn sydd yn digwydd yn y byd yn broblem i bob un ohonom ac fod y cyfryngau yn anffodus yn rhoi pwyslais mawr ar newyddion drwg. Dywedodd wrthym sut oedd eu deddfau cyllid yn gweithio ac fod yna gydraddoldeb. Mae Allah yn cael cam gan lawer. Yn ei eiriau ef, "If a driver has an accident, blame the driver, not God."



*Dr. Adel Ahmed a Dr. D. Ben Rees* JGW

Ar ddiwedd y cyfarfod diddorol hwn roedd Dr. Ahmed yn barod i ateb cwestiynau. Dyma rai o'r cwestiynau a'i atebion.

*Cwestiwn:* A oes gan ferched yr un hawliau â dynion?

*Ateb:* Gormesir merched gan rai Moslemiaid ond nid yw hyn yn digwydd yng nghrefydd Islam. Nid yw gwraig yn cymryd enw ei gŵr ac nid yw gŵr yn cyffwrdd etifeddiaeth ei wraig.

*Cwestiwn:* Beth am yr argyfwng presennol? (ISIS a'u gweithredoedd dychrynllyd). Nid ydym yn gweld yr un person ar lwyfan y byd yn amddiffyn Islam.

*Ateb:* Does dim argyfwng mewn Islam, dim ond yn y byd Moslemaidd. Nid oes lle o gwbl yn y Cyfryngau i Islamiaid cymedrol gael siarad.

*Cwestiwn*: Beth a feddyliwch am Charlie Hebdo a'r gwawdlun (caricature) o Fohamed?

*Ateb*: Dylai unrhyw un sydd yn gwneuthur peth o'r fath gael y sac yn syth.

*Cwestiwn*: A yw Islam yn ceisio cael mwy o ddilynwyr?

*Ateb*: Na, mae gan pob un y rhyddid i ddewis ei grefydd ei hun.

*Cwestiwn*: A ydych yn cydweld ag ISIS?

*Ateb:* Yn ei eiriau ef – "No. An ISIS Moslem is an idiot Moslem. We need to get rid of them."

*Cwestiwn:* Yng nghrefydd Islam, a oes rhyddid i gael mwy nag un gwraig?

*Ateb:* Mae rhyddid i ni gael i fyny i bedair gwraig ond dim ond os oes enghraifft anorfod yn bod, er enghraifft, gwraig yn anabl i gael plant.

Diolchwyd yn gynnes i Dr. Adel Ahmed gan Dr. D. Ben Rees a awgrymodd efallai y buasai'n hoffi dychwelyd atom rhyw ddydd gyda rhai o'i gyfeillion o'r Mosg. Mwynhawyd paned a lluniaeth ysgafn gan bawb. Roedd hon yn sicr yn noson i'w chofio.

**YN Y RHIFYN HWN:**
APÊL MIMOSA MAI 2015 - NEWYDDION O EGLWYSI BETHANIA, BETHEL, SEION, MANCEINION A CYMRY LERPWL . COFIO KEN PRITCHARD, EMRYS WILLIAMS, MONA JONES

Golygyddol

# Stori Hill Cliffe, ger Warrington – gan D. Ben Rees

Rhyfedd ar y naw yw llunio golygyddol ar y testun Hill Cliffe ger Warrington gan na fum yno ac ni wn sut fyddai mynd i weld y lle heb help map *google*. Ond pwysigrwydd Hill Cliffe yw mai dyma'r fan y tarddiad enwad pwysig y Bedyddwyr a welwn yn Lerpwl. Er fod y Bedyddwyr Cymraeg wedi peidio â bod, eto rhaid cofio fod hanes y Bedyddwyr Cymraeg yn gysylltiedig â hanes y Bedyddwyr Saesneg Lerpwl.

Eglwys hynaf y Bedyddwyr yng Ngogledd Lloegr yw Hill Cliffe, tair milltir o Warrington ac ugain milltir o Lerpwl. Mewn pregeth yn 1549 o flaen y Brenin-blentyn Edward VI, cyfeiriodd y Protestant dewr, yr Esgob Latimer, at y Bedyddwyr yn cael eu llosgi ar hyd a lled y wlad "a'u bod yn mynd i'w diwedd yn llawen a di ofn".

Mae'n debyg fod eglwys Hill Cliffe yn bod cyn geiriau yr Esgob. Ni ellir nodi dyddiad sefydlu'r achos. Gwelodd un hanesydd dibynadwy feddfaen yn hen gladdfa eglwys Hill Cliffe yn dwyn y dyddiad, 1357, a dyna ni felly yn solet yng nghyfnod y Lollardiaid, dilynwyr Wycliffe yn Lloegr. Tybed a welsoch chwi ar BBC4 ar nos Fercher, 4 Chwefror, 2015 y rhaglen *The Most Dangerous Man in Tudor England?* Awr o raglen yn edrych ar y diwinydd William Tyndale un arall oedd yn nhraddodiad Wycliffe a'r Lollardiaid.

Yn 1704 daeth Cymro o Graigwen ger Llanidloes yn weinidog ar eglwys Hill Cliffe. Ei enw oedd Francis Turner. Yr oedd ef yn aelod, fel ei rieni o'i flaen, o eglwys y Piwritan Vavasor Powell, fel y gelwid holl gynulleidfaoedd Sir Drefaldwyn y dwthwn hwnnw. Bu Francis Turner farw yn 1727 ac yn Hill Cliffe y mae ei feddrod.

Yr oedd Bedyddwyr brwdfrydig yn Nantwich yng nghyfnod Turner ac oddi yno y tramwyodd ideoleg y Bedyddwyr i ardal ddwyreiniol Sir Ddinbych, yn benodol i Glyn Ceiriog, Cefn Bychan ac i Wrecsam. Gweithredai Capel Nantwich fel cangen i eglwys Hill Cliffe, yn wir gwyddom fod yr aelodau yn cyfrannu at gynhaliaeth gweinidogaeth Francis Turner. Daeth dyddiau gwell i'r Bedyddwyr a'r Anghydffurfwyr cynnar yn 1689 ar ôl esgyniad William a Mary i'r frenhiniaeth yn 1688. Cafwyd Deddf Goddefiad a chanlyniad hyn oedd fod Anghydffurfwyr yn medru cofrestru canolfannau addoliad a chael rhyddid i gyhoeddi'r Gair. Bu hyn yn hynod o bwysig i baratoi'r ffordd i'r Diwygiad Methodistaidd yn y ddeunawfed ganrif.

O eglwys Hill Cliffe tua 1690 y daeth Daniel Fabius i Lerpwl a chymerodd dŷ yn Low Hill, Everton Road, yn y pen uchaf. Cofrestrodd ei dŷ ar 25 o Orffennaf 1700 i fod yn ganolfan pregethu. Gwelir bedd ei rieni Ebenezer a Hannah Fabius ym mynwent Hill Cliffe.

Pan gofrestrwyd tŷ Daniel Fabius dim ond pum mil oedd poblogaeth y porthladd. Gweithred flaengar o eiddo'r Dr. Fabius (meddyg ydoedd) a'i fam Hannah oedd rhoddi darn o dir, a ffiniau a'i gartref yn Low Hill, yn rhodd i'r Bedyddwyr. Gwelodd y Bedyddwyr eu cyfle ac addaswyd y darn tir yn fynwent Bedyddiedig. Yno y claddwyd Dr Fabius yn 1718. Gan i dŷ y meddyg fynd yn rhy fach codwyd Capel o Goed ar ddarn o'r tir claddu, ac agorwyd yr adeilad cyn diwedd 1717. Gwelodd Dr. Daniel Fabius ei weledigaeth yn cael ei wireddu, a dyna'r adeg y cafodd yr achos ollyngdod oddi wrth Eglwys Hill Cliffe. Yr oedd hi'n bosibl i'r capel newydd sefyll ar ei draed ei hun, ac yn wir estyn galwad i ŵr o'r enw Peter Davenport, ac ar ei ôl ef, Mr. Sedgfield, brodor o Heaton yn Sir Gaerefrog. Yn ystod ei weinidogaeth ef symudodd y gynulleidfa o Low Hill i Shaw's Brow, yr heol a elwir heddiw wrth yr enw William Brown Street. Yno y cofrestrwyd yr addoldy hwn ar Gorffennaf 19, 1722. Safai'r addoldy yr adeg honno yn agos i'r Amgueddfa presennol yn William Brown Street, ac yn gwynebu Byrom Street. Yn ôl un sylwebydd o'r cyfnod hwnnw, dyma ddisgrifiad o'r adeilad "An old fashioned quaint and small, but rather good looking ecclesiastical structure".

Cawn rhai o Gymry Lerpwl yn mynychu'r moddion yn y capel hwn, ac yn y capel mwy a godwyd yn Byrom Street yn un saith wyth naw. Ond diolch am genhadaeth Hill Cliffe ar hyd y canrifoedd a'r had a heuwyd yn Lerpwl.

***A welsoch chwi'r cerflun o waith Andy Edwards yn yr Eglwys Gadeiriol yn Lerpwl?***



*Coffâd*

# KENNETH JOHN PRITCHARD

**(1943 – 2014)**

**Ymhlith Cymry Lerpwl yr ugain mlynedd diwethaf ni fu neb yn fwy selog na Ken Pritchard i gyfarfodydd y capeli y bu'n aelod ynddynt ac i'r Gymdeithas Gymraeg. Ganwyd Ken ar 27 Medi 1943 i Dilys a Rowland Parry Pritchard, hi yn un o Gymry Lerpwl a Rolly R. Pritchard yn enedigol o Ynys Môn. Magwyd ef yn 33 Douglas Road a'i addysgu yn Ysgol Anfield. Ganwyd brawd Alun yn 1948, llanc a gafodd ei ladd ag yntau ar ei feic yn paratoi ar gyfer fod yn nyrs seiciatryddol yng Nghaer, a hynny ym mis Mai 1966. Bu hi yn brofedigaeth fawr i'r rhieni, i Ken, a'r holl deulu.**

**Ar ôl gadael ysgol cafodd Ken waith fel negesydd i'r gwleidydd, Henadur Joseph Cleary a fu'n amlwg iawn ym mywyd y ddinas. Ar ôl iddo gael ei restru ymhlith yr anabl, cafodd swydd yn Remploy, a bu gyda hwy am 32 mlynedd, yn fawr ei barch, ac ym Mawrth 2008 daeth ei gysylltiad â hwy i ben oherwydd bod y cwmni yn dod i ben ei rawd.**

**Yr oedd gan Ken dri pheth oedd yn bwysig dros ben iddo. Yn gyntaf ei wreiddiau fel Cymro a chredadun. Ef oedd y pedwerydd cenhedlaeth o Gymry Lerpwl ac oherwydd diffyg ar ei leferydd ni chlywyd namyn air o Gymraeg o'i enau. Ond clywodd rai ohonom aml i air Cymraeg a medrai ddeall a darllen digon i'w fodloni. Prynai yr *Echo* bob nos a byddai'n cael llawer o bleser o'r *Radio Times*, yn arbennig y croeseiriau. Ond yr oedd *Yr Angor* yn un o'i brif gylchgronau, wedi'r cyfan bu ei dad yn un o sylfaenwyr y papur yn 1979, ac yn Ddosbarthwr iddo. Collodd ei dad yn 1981 ond daliodd ei fam ag yntau i ymlwybro o Thomas Drive i Gapel y Bedyddwyr Cymraeg yn Edge Lane ac ar ôl hynny i Gapel Earlsfield Road, Wavertree, cyn ymuno â Chapel yr Annibynwyr Cymraeg Woolton Road, ac yn Medi 2008 daeth yn aelod o eglwys Bethel. Cafodd gysuron a chefnogaeth yn y Gymdeithas Gymraeg, a diolchir i bob un a fu moir ddidwyll a gofalus ohono. Ar ôl colli ei fam yn 1999 cafodd Ken gartref yn Crompton Street, lle y bu am dair blynedd ar ddeg cyn symud i Melbreck yn West Allerton dwy flynedd yn ôl. Cafodd ofal mawr yn y ddau le a dysgu bod yn annibynol.**

**Yn ail Lerpwl oedd ei ddinas ac Everton oedd ei glwb i'w gefnogi. Meddai ar gasgliad da o'r rhaglenni hyn, a hyd y medrai bu'n gefnogydd brwd. Ar hyd y blynyddoedd prynai docyn blwyddyn Clwb Everton. Ar ddiwrnod ei angladd 15 Ionawr, teithiwyd heibio Cae pêl-droed Goodison ar y ffordd i Amlosgfa Anfield lle y gorwedd gweddillion ei anwyliaid.**

**Yn drydydd meddai ar argyhoeddiadau cryf a chadarn fel Cymro a chapelwr. Ni fyddai yn barod i fynd i weld Everton yn chwarae ar bnawn Sul am unrhyw bris yn y byd. Yr oedd y Sul i fynychu Capel ac nid y wylio pêl-droed boed hynny yn Goodison Park neu unrhyw le arall. Golygai yr Eisteddfod Genedlaethol gryn lawer iddo. Mynychai yr Eisteddfod yn y De a'r Gogledd y blynyddoedd diwethaf, trwy gymorth ei gyfnither, Mrs Christine Hughes, Dinbych. Bu yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 2001, Meifod 2003, Wyddgrug 2005, Glyn Ebwy 2010 a Bro Morgannwg 2012 i mi wybod a braf oedd ei weld ar y maes. Synnai ei anwyliaid gymaint oedd yn ei adnabod, y cenhadon a ddeuai ar y Sul, a'r darlithwyr a ddeuai ar nos Fawrth. Os ceid llithriad o gwbl yn ein cylchlythyr, *Y Rhwyd,* ef oedd y cyntaf i'w ganfod. Bu yn ddisgybl i Iesu Grist a bu dylanwad ei nain, Mrs Margaret Jane Thomas, yn drwm arno, y teulu a fu yn mynychu Capel y Bedyddwyr Cymraeg Everton Village.**




***Ken Pritchard***

**Gwelwn ei golli. Diolchwn i'w deulu am bob gofal ohono, ei gyfnitherod Christine, Anne a'i gefnder Bill a'i briod Hilary.**

**Cymerodd y gwasanaeth le yng nghapel Bethel, Heathfield Road, a daeth tyrfa ynghyd i dalu'r gymwynas olaf i un o'r diniweitiaf o blant dynion ac eto un o'r ffyddlonaf o ddisgyblion y Crist. Bu hi yn galed arno o 1 Mawrth 2014 hyd yr anadl olaf ar 30 Rhagfyr yng Nghartref Westwood, Brimstage lle y cafodd ofal mawr. Boed i'r Arglwydd ei dderbyn i'r dragwyddol orffwysfa.**

**D. Ben Rees**

# CORNEL Y TRYSORYDD
## MAWRTH 2015

| | |
|---|---|
| Prof. Mari Lloyd Williams, Waengoleugoed | £25.00 |
| Urdd Graddedigion Lerpwl, Lerpwl | £30.00 |
| Mr Ron Gilford, Manceinion | £10.00 |
| Cyngor Llyfrau Cymraeg, Aberystwyth | £50.00 |
| Mr Hywel Wyn Roberts, Caernarfon | £20.00 |
| Miss Hilda Lloyd, Rainhill | £25.00 |
| Mrs Ann Jones, Llanwrin | £25.00 |
| Mr John Medwyn Jones, Bae Colwyn | £50.00 |
| Mrs Menai Roberts, Newcastle | £50.00 |
| Mrs Mona Bowen, Aberystwyth | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£310.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cyrhaeddodd Adroddiad Blynyddol am 2014 i'n dwylo (14 tudalen o adroddiad) wedi ei olygu a'i argraffu gan ein Hysgrifennydd, John P. Lyons. Lleinw Adroddiad y Gweinidog 5 tudalen a gwelir graen ar y cyfrifon a baratowyd gan Mrs E. Bryn Boyd a Mrs Menna Caton. Collwyd ein horganydd Mrs Nan Lewis ar ddechrau flwyddyn ond llwyddwyd i seinio'r gân gan i Mrs Margaret Anwyl Williams a Dr. J. G. Williams wneud cryno ddisg o ddeugain o'r tonau adnabyddus. Gofelir ar ôl y peiriant gan Mr. Jim Boyd. Pan ddaw ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees atom bydd Mrs Meinwen Rees wrth yr offeryn. Diolchir iddi am ei chyfraniad i'n haddoliad. Bu galw ar ein hymddiriedolwyr ym Methel, Elin yn sôn am emyn bendithiol iddi, John P. Lyons yn llywyddu Cyfarfod o'r Gymdeithas Gymraeg ar nos Fawrth ganlynol yn cael ei holi am ei fywyd cynnar yn Llundain ac Ynys Môn. Cofiwn am ein haelodau sydd mewn Cartrefi Preswyl: Miss Glenys Jones, Miss Kitty Roberts, Mrs Gwyndaf Williams (Ainsdale) a'r cleifion, Mrs Mena Edwards a Miss Dorothy Williams, y ddwy ohonynt yn ein gweddïau fel yr eraill a gofiwyd.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Dyma ni ar ddechrau blwyddyn newydd sbon, gan obeithio y bydd yn flwyddyn dda a charedig wrth holl ddarllenwyr *Yr Angor.*

Cawsom ddechrau hyfryd i'r flwyddyn newydd ym Methel gydag Oedfa ar fore Sul 4 Ionawr dan ofal Dr. D. Ben Rees. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Y noson ddilynol cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn dan nawdd Y Gymdeithas Lenyddol. Cymerwyd rhan gan Miss Sara Williams, Mrs Beryl Williams, Mrs Anne M. Jones, Mrs Wena Evans, Mrs Elan Jones, Mr. Ted Clement-Evans a Mr. Dafydd Wrenall. Diolchwn yn fawr iddynt.

Ar fore Iau 15 Ionawr cynhaliwyd angladd y diweddar Ken Pritchard oedd mewn Cartref yn Brimstage ym Methel dan ofal Dr. D. Ben Rees. Daeth cynulleidfa dda ynghyd. Cafodd deyrnged dda iawn gan Dr. Rees a chan gefnder iddo, Mr. Bill Thomas (Crosby) a siaradodd ar ran y teulu, yn enwedig ar ran Christine, cyfnither i Ken a fu mor ofalus ohono, a'i chwaer Helen. Fyddai Ken byth yn colli cyfarfod yn y Capel, yng Nghymdeithas Cymry Lerpwl na'r Gymdeithas Lenyddol. Er ei fod yn hoff iawn o dîm pêl-droed Everton, ni a'i i'w gweld yn chwarae ar y Sul.

Lediwyd un o'r emynau gan y Parchg. Kathy Bennett, gynt o Eglwys yr Annibynwyr yn Woolton Road, a rhoddodd hithau deyrnged dda iddo. Dilynwyd y gwasanaeth yn Amlosgfa Anfield, yna cafwyd lluniaeth yng Nghlwb Pêl-droed Everton. Ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu i gyd. Bydd ei le yn wag.

Cawsom noson a hir gofir ar nos Lun 19 Ionawr dan nawdd Urdd Colegau Cymru pan roddwyd darlith ar Islam gan Dr. Adel Ahmed, Moslem sydd yn Ddirprwy Ganghellor Prifysgol Hope, Lerpwl. Roedd hon yn noson ddiddorol dros ben a cynulleidfa fawr wedi ymgynnull. Deall fod y Golygydd wedi trefnu adroddiad arbennig i'r papur bro.

Dan nawdd Y Gymdeithas Lenyddol ar nos Lun 26 Ionawr cawsom noson sydd wedi dod yn boblogaidd dan y teitl 'Un o'm Hoff Emynau'. Cymerwyd rhan gan Mrs Elin Bryn Boyd o Eglwys Bethania a Mrs Wena Evans a Mrs Glenys Johnson o Fethel. Y llywydd oedd Dr. John G. Williams. Siaradodd Elin am Emyn 791, "Tydi a wnaeth y wyrth o Grist, Fab Duw" gan W. Rhys Nicholas (1914-96). Dewisodd Wena Emyn 131, "Tydi a roddaist liw i'r wawr" gan T. Rowland Hughes (1903-49). Dewis Glenys oedd Emyn 64, "Tydi sy deilwng oll o'n cân" gan David Charles (1803-80). Cawsom sylwadau diddorol gan y tair ohonynt a mwynhawyd eu cyfraniadau yn fawr. Cawsom gyd ganu y tair emyn ar y tonau 'Pantyfedwen', gan M. Eddie Evans (1890-1984), 'Tydi a Roddaist' gan Arwel Hughes (1909-88) a 'Godre'r Coed' gan Matthew W. Davies (1882-1947) i gyfeiliant Mrs Margaret Anwyl Williams. Diolchwyd yn gynnes i'r tair gan Dr. John Williams a Dr. D. Ben Rees. Roedd Dr. John Williams wedi medru rhoi lluniau o rai o'r bobl a'r lleoedd y soniwyd amdanynt ar y Pŵer Point, ac fel y dywedodd, roedd yn rhyfedd i'r tair ddewis emynau yn cychwyn gyda'r gair "Tydi".

Mae Mrs Elan Jones, Mossley Hill wedi ein gadael am Batagonia am beth amser. Dymunwn yn dda iawn iddi yno, ond bydd yn ôl cyn Gŵyl Mimosa.

Anfonwn ein cofion at Mr. E. Goronwy Owen (Calderstones) sydd yn araf gryfhau ac yn siriol, at Mrs. Nerys Vaughan Jones (Aigburth) ac at bawb sydd yn gaethiwus i'w cartref neu mewn Cartref Preswyl.

Edrychwn ymlaen yn awr at weithgar-eddau Gŵyl Ddewi, y Cinio ar nos Sadwrn 28 Chwefror yn Woolton a'r Gwasanaeth Dinesig gydag Arglwydd Faer Lerpwl ar fore Sul Mawrth 1 ym Methel.




***Fy Hoff Emyn – Glenys, Wena a Elin***

## Cymdeithas Cymry Lerpwl


Ail ddechreuwyd wedi gwyliau'r Nadolig gyda ocsiwn yng nghartref John a Beryl Williams. Cafwyd digon o gyfle i fargeinio, prynu, bwyta a sgwrsio. Gwnaed elw sylweddol i'r Gymdeithas sef £170.

Olrhain hanes teulu Jim Griffiths, Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru, wnaeth y Parch. Ddr. D. Ben Rees y nos Fawrth ganlynol.

Ar y nos Fawrth olaf o'r mis cawsom noson ddiddorol yng nghwmni Llywydd y gymdeithas a'i westai arbennig sef Mr. John Lyons, Knowsley Village. Mae John yn meddwl amdano ei hun fel Cymro ond fe'i ganwyd yn Hackney, yn nwyrain Llundain. Y mae ganddo un chwaer yn hyn nag ef sef Nellie. Roedd ei dad yn ddreifer bws a'i fam yn gwneud dillad. Torrodd yr ail rhyfel byd allan pan oedd yn bedair oed a dechreuodd y bomio ar Lundain y flwyddyn ddilynol. Pan aeth y sefyllfa yn ddrwg cafodd ef a'i chwaer eu symud i Sir Fôn lle roedd ei dad yn filwr yn Ngwersyll Tŷ Croes. Wedi symud o gwmpas yr ardal ymgartrefodd yn 2 Chapel Street, Rhydwyn gyda Anti Lizzie. Arhosodd yn Sir Fôn am y deng mlynedd nesaf hyd nes yr oedd yn 15 oed. Dychwelodd i Lundain at ei dad yn Putney. Gweithiodd fel prentis peirianyddol ond yr oedd yn hiraethu am Sir Fôn. Arferai fynd i Orsaf Euston i weld y trên "Irish Mail' cyn iddi adael am Gaergybi. Pan oedd yn 18 oed dechreuodd ar ei wasanaeth cenedlaethol yng Nghroesoswallt ac yna bu yn Hong Kong am gyfnod. Ar ôl gorffen ei wasanaeth cenedlaethol symudodd yn ôl i Sir Fôn ac ymuno a Heddlu Gwynedd. Cyfarfu â Marian (mewn gwasanaeth bedydd) a bu y ddau briodi yn 1958. Ymunodd a Heddlu Glannau Mersi yn 1966 fel Arolygydd gyda'r bwriad o aros am 5 mlynedd i gael brofiad o waith y Heddlu mewn dinas cyn dychwelyd i Gymru, ond mae yma o hyd. Tra yn gweithio gyda'r Heddlu yn Lerpwl bu ef yn gyfrifol am oruchwylio y tyrfaoedd oedd yn mynychu y gêmau pêl droed yn Anfield a Parc Goodison. Diolch i Roderick a John am noson mor diddorol ac edrychwn ymlaen at wrando yr ail bennod.



*Yr ocsiwniwr wrthi*



*Roderick Owen a John Lyons*

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Ar Sul, 1 Chwefror a Dr. D. Ben Rees yn gwasanaethu cyhoeddwyd yn yr oedfa gan un o'n blaenoriaid newydd, Mrs Mair Rees Jones a thalodd deyrnged haeddiannol i Miss Iris Hughes am olygu yr Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn 2014 a ddaeth o'r Wasg y penwythnos hwnnw. Y mae graen ar yr adroddiad a gwir y dywed Ysgrifennydd yr Eglwys yn ei anerchiad:

'Daliwn ati i warchod ein hiaith a'n diwylliant a'n crefydd. Cofiwn ein bod yn stiwardiaid yng ngwaith y Deyrnas'.

Y mae Eglwys Seion yn ffodus dros ben bod ganddi dri gŵr sy'n organyddion medrus, sef Goronwy Lloyd Humphreys (Wallasey), Gwyn Tudor Owen a Terry O'Neill, y ddau o Prenton. Blin oedd clywed fod Mrs Margaret Jones ddim yn medru dilyn y gweithgareddau oherwydd salwch ac anfon ein cofion ati fel gohebydd yr eglwys i'r *Angor*. Y mae eraill y gwelwn ei colli fel Mrs Sarah Davies, Bebington a Mrs Dilys Askew, New Brighton. Deil cyfartaledd uchel o'r aelodau i addoli yn rheolaidd o Sul i Sul yn Seion yn y pnawn.

## Newyddion o Gymry Manceinion a'u Capeli

Daeth gweithgareddau 2014 i ben gyda gwasanaeth carolau unedig yng nghapel Noddfa Oaker Avenue brynhawn Sul Rhagfyr 21ain. Hyfryd oedd gweld 'y tŷ yn llawn' – yn blant, pobl ifanc ac

Rhifyn Mawrth_Tud 8 Mehefin.qxd 05/02/2015 15:05 Page 6

oedolion. Cafwyd darlleniadau addas o'r Beibl, adroddiadau, deuawd ac yn naturiol ganu carolau. Mwynhawyd sgwrs gyda chwpaned o de a mins peis ar ôl y gwasanaeth a phawb yn ymlacko yn ysbryd yr Ŵyl.

Ar 12fed Ionawr 2015, Mr Elwyn Evans oedd y siaradwr yng nghymdeithas Cymry Manceinion. Teithio yng Ngogledd America oedd teitl ei sgwrs. Aeth â ni ar daith o Missouri i lawr i Florida lle mae Alan, mab Elwyn, yn byw gyda'i deulu. 'Roedd y lluniau yn werth eu gweld, yn enwedig y machlud dros afonydd Missouri a Mississipi. Yn ôl ei arfer 'roedd Elwyn wedi paratoi popeth yn drylwyr. Cawsom noson hynod o ddiddorol ac addysgiadol.

Balch oeddem i groesawu y Parch Eric Greene a Mrs Haf Greene atom ddydd Sul cyntaf 2015 mewn oedfa gymun. Gwethfawrogwn yn fawr ei fod yn dod cryn bellter a hynny ym mis Ionawr pan mae'r tywydd mor gyfnewidiol. Diolchwn i Mr Alun Roberts am drefnu cyfarfod gweddi dechrau'r flwyddyn gyda aelodau'r capel yn cymeryd rhan. Cafwyd cyfarfod urddasol a phwrpasol. Y trydydd dydd Sul, Ionawr 18, Sul cyntaf yn yr wythnos o weddi am undod Gristnogol yn ein byd, ein pleser oedd croesawu y Barch Anne Pilkington atom o Eglwys Christ Church. Roedd yr awyrgylch yn gynnes a'i neges inni yn amserol. Cafwyd prynhawn hyfryd yn ei chwmni.

Ar Ionawr 21ain, cafodd Mr Elwyn Evans ei arwisgo fel Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain am y flwyddyn 2015. Roedd yn hyfryd bod ei wraig Eflyn yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod yn ogystal. Anrhydedd iddo wrth gwrs yw cael ei ethol i fod yn Llywydd ond i ninnau ym Manceinion hefyd. Dymunwn yn dda iddo ar ddechrau ei flwyddyn yn y swydd.

A dyma fis Chwefror ar ein trothwy. Mis bach ond mis prysur iawn gan y bydd dathliadau ein nawdd Sant Dewi yn mynd â'n bryd. Edrychwn ymlaen at ein cinio Gŵyl Ddewi blynyddol ar Chwefror 21ain ac at y cyngerdd yn y Royal College of Music ar Chwefror 28ain, pan fydd Côr Godre'r Aran ac eraill yn ein diddanu.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Fendithiol i'r Golygydd ac i Ddarllenwyr yr *Angor* a diolch am eich gwaith rhagorol yn cyhoeddi ein 'papur bro' mor gyson a mor raenus.



***Ymweliad aelodau a llywydd Cymdeithas Birkenhead a Mrs Gwyneth Thomas ar ei phenblwydd yn 99. Mae Gwyneth wedi cartrefu'n hapus mewn cartref gofal yn Wallasey. Er yn anghofus, mae'n mwynhau iechyd da, ac yn dal yn fywiog a hwyliog. Mae hi'n mwynhau cwmni ac yn aelod poblogaidd ymysyg y staff a'i chyd drigolion.***



# Gŵyl Mimosa

**(Nos Wener Mai 29 i bnawn Sul, Mai 31, 2015) yn Lerpwl o dan nawdd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi.**

**Trefnwyd y rhaglen ganlynol:**

**NOS WENER, 29 MAI 2015** yn Neuadd Canolfan y Crynwyr (Quaker's Meeting House, School Lane) yng nghanol y ddinas am 7.30 o'r gloch pryd y ceir Noson ar **Cefndir a Chyflwyno y Mimosa.**
Ceir cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg gan Dr. D. Ben Rees (cefndir), Wayne Jones, Llandeilo (y llun a'r print), Susan Wilkinson, Toronto, **Mimosa** a Ian Pollitt o Peel Holdings ar Yfory, a'r Dadorchuddio.
Y Cadeirydd (i'w ddewis)

## SADWRN, 30 MAI

**Bore Sadwrn ceir dewis**
***a) Cerdded o Otterspool i Doc Albert*** (5 milltir) yng nghwmni Cymdeithas Edward Llwyd
dan arweiniad Alun Davies
***b) Dwy sesiwn yn Amgueddfa Morwrol Lerpwl*** *(Merseyside Maritime Museum).*
I gasglu erbyn 10.15 o'r gloch. Traddodir Darlith ar **Arloeswyr y Mimosa** gan Elvey MacDonald, Llanrhystud.

11-20 - 11.45 – Toriad am baned.

11.45 - 12.45 – **Seiat Holi yng nghwmni Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, Marli Pugh, Gaiman, Iris Roberts a Wendell Davies o'r Wladfa.**
Holwr: Yr Athro D. Ben Rees
Bydd angen tocyn neu talu wrth y drws yn y bore.

**3 o'r gloch – DADORCHUDDIO Y GOFEB** ger Swyddfa Peel Holdings ac ymyl Doc Princes (ffordd yn mynd heibio Crowne Plaza – rhoddir y cyfarwyddiadau yn y rhifyn nesaf).
Y Seremoni yng ngofal Dr. Huw Edwards, Llundain a cheir cyfraniadau gan Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, AC., Llysgennad Ariannin, Cadeirydd Cymdeithas Etifeddiaeth. Cenir gan Hogiau'r Whilber (Gaiman) ac eraill.

**Nos Sadwrn am 7.30 o'r gloch** yng Nghapel Methodistiaid Saesneg, Elm Hall Drive, Allerton (ger Penny Lane) yng nghwmni **Côr Merched Edeyrnion** (Arweinydd: Manon Easter Lewis).
Llywydd: Yr Athro Huw Rees.
Tocynnau ar gael erbyn Ebrill 1.

## Sul, Mai 31, 2015

### Oedfa'r Mimosa am 10.30 ym Methel.

*Llywydd:* Dr. D. Ben Rees.
*I bregethu:* Parchg. R. W. Jones, BA, Wrecsam.
**O 12 o'r gloch i 1.45** darperir lluniaeth a chyfle i gymdeithasu yng Nghanolfan y Cymry (mynediad Auckland Road).
Darperir hyn gan chwiorydd capel Presbyteraidd Bethel.
**2 o'r gloch –** Cynhelir **CYMANFA GANU** o dan ofal Mr. R. Ifor Griffith. Llywydd: David Mawdsley, Bodfari.
Os daw Plant Ysgol Gymraeg Trelew ceir cyfle iddynt bore a pnawn.

Ceir gwybodaeth yn y rhifyn nesaf o'r Angor a bydd **Llawlyfr yr Ŵyl** allan ar ddydd Gwener, 1 Mai.
Anfoner amdano (pris £3 trwy'r post) i Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW erbyn Ebrill 25 neu benatgarthdrive@talktalk.net

Rhifyn Mawrth_Tud 8 Mehefin.qxd 05/02/2015 15:05 Page 8

*Coffâd*

# MR. EMRYS WILLIAMS

## (1917 – 2014), Ellesmere Port

**Cysylltir enw Emrys Williams yn annatod gyda Ellesmere Port lle y cyflawnodd gwaith mawr ei fywyd ond fe'i ganwyd yn Froncysyllte. Symudodd ei rieni Mr a Mrs Watkin Williams i Ellesmere Port oherwydd y sefyllfa economaidd yn Sir Ddinbych, ond bu dyfodiad y teulu yn affaeliad anghyffredin i fywyd Cymraeg y dref yn niwedd y dauddegau a chapel y Methodistiaid Cymraeg yn benodol.**

**Etholwyd Watkin Williams yn flaenor yn 1943 ac yr oedd Emrys yn llawn prysurdeb o 1937 ymlaen, felly hefyd ei chwaer Bessie Frimstone. Ni fu pall ar gyfraniad Emrys Williams fel arweinydd doeth. Erbyn y chwedegau yr oedd yn arweinydd Côr Meibion Great Sutton, ac yr oedd graen eithriadol ar ei berfformiadau o dan ei ofal. Ym mis Gorffennaf 1969, ef a gipiodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ar y gân werin. Edmygid ei ymroddiad erbyn hynny gan gylch eang. Cofiaf yn dda ei weld ar faes Eisteddfod Genedlaethol y Fflint yn 1969 ag yntau wedi cipio gwobr yng nghystadleuaeth canu Lieder a Chôr Meibion Sutton wedi cael gwobr yng nghystadleuaeth Parti Meibion dan ddeugain o leisiau. Yr un flwyddyn llwyddodd ei fab Trefor ennill y radd o Ph.D. o Brifysgol Bryste.**

**Yr oedd Emrys Williams yn gyfrifol am lwyddiant Côr Eglwys Gymraeg Ellesmere Port mewn gwyliau cerddorol, ac yn arbennig yng ngŵyl gerddorol ei dref fabwysiedig. Anrhegwyd ef fel arweinydd y Côr fwy nag unwaith, ac yr oedd yn haeddu pob teyrnged. Cafwyd yn aml ddarlithiau ganddo, yn arbennig ar ei ymweliadau â'r Unol Daleithiau, a byddai yn mynd yn gyson yno am fod ganddo deulu yn nhalaith Efrog Newydd. Bu mewn aml i Gymanfa Ganu Canada a'r Unol Daleithiau gan ei fod mor gerddorol, o ran dawn canu, cyfansoddi tonau, chwarae'r organ ac yn arweinydd o'r radd flaenaf ar Gorau Meibion a Chorau Cymysg.**

**Erbyn canol yr wythdegau daeth nifer fawr ohonom yn ymwybodol o'i ddawn fel artist ar gynfas. Medrai'r ddawn o hyfforddi pobl i arlunio a chychwynodd ddosbarth yn y capel gan roddi taliadau'r disgyblion yn gyfangwbl tuag at yr achos. Y mae un peth yn eglur am y deg mlynedd ar hugain olaf yn hanes Capel Cymraeg Ellesmere Port ef oedd yn bennaf gyfrifol am godi'r arian angenrheidiol i gynnal y dystiolaeth heb ddibynnu ar unrhyw gymorth o unman. Deuai dosbarth arlunio ag elw da, o leiaf £1,200 y flwyddyn. Gwnai hynny trwy ei ddoniau, ac yn arbennig gynhyrchu calendrau dwyieithog a chardiau Nadolig defnyddiol a luniwyd ganddo.**

**Ym mis Mai 1994, llongyfarchwyd Emrys Williams fel organydd y capel cenhadol am 60 mlynedd a gofalais fod yr Henaduriaeth yn cofio am ei gamp anhygoel. Nid rhyfedd iddo gael ei ddewis yn y flwyddyn 2000 yn Ŵr y Flwyddyn gan yr wythnosolyn *Chester Chronicle* a Chlwb Rotari De Cilgwri.**

**Trwy ei gyfeillgarwch gyda Cynghorydd Fred Venables, daeth arweinydd y cylch yn gefnogydd yr achos, hyd ei farwolaeth yn 2005. Bu'n rhaid yn fuan wedyn ildio a threfniais oedfa dathlu canmlwyddiant yr achos ar 4 Mehefin 2007 a chael bws o gyfeillion Lerpwl i'r cyfarfod. Plesiodd hyn ein cyfaill yn fawr iawn a gweld ei gydweithwyr, Mrs Olwen Dodd, Joe Williams, y Parchedigion Rhys Ogwen Jones, T. R. Wright, John P. Lyons ac eraill yn rhan o'r cyfan. Cafwyd braslun o hanes Cristnogaeth Cymraeg y Dref o enwau dau a fu'n gynheiliaid pennaf yr achos, Clifford Owen a Emrys Williams. Gofynnwyd imi, cyfaill arall iddo draddodi'r neges. Daliodd yr achos i rygnu ymlaen am ddeunaw mis arall cyn trefnu uniad gyda eglwys St. John Street, Caer lle derbyniodd llond dwrn o'r praidd groeso tywysogaidd, a gweinidog newydd y Capel, Parchg. Robert Parry, oedd yng ngofal ei arwyl ar bnawn Llun, 5 Ionawr 2015 yn Amlosgfa Caer. Meddyliai Emrys yn fawr o Gymry Caer a fu mor deyrngar i'w Arddangosfa Flynyddol o'i Gynfasau Arlunio. Cyflwynais yn Mehefin 2012 y gyfrol ddwyieithog *Cysegr Sancteiddiolaf Capel Westminster Road, Ellesmere Port (1907-2007)* (Cyhoeddidau Modern) iddo: 'Cyflwynwyd i Emrys Williams, MBE sydd wedi bod yn gefn mawr ym mywyd Presbyteriaeth Cymraeg yn Ellesmere Port ers ei ieuenctid'.**

**Dywed y cyflwyniad a'r gyfrol y cyfan am ei fywyd dawnus, defnyddiol a da.**

**D. Ben Rees**

R·A·B·I
Supporting Farming Families

# ELUSEN AMAETHYDDOL R.A.B.I.

Elusen amaethyddol yw R.A.B.I (Royal Agricultural Benevolent Institution) sy'n cefnogi teuluoedd yng Nghymru a Lloegr sydd naill ai'n ffermio, neu wedi ymddeol o'r byd amaeth, Rydym yn gallu helpu pan fo'r esgid fach yn gwasgu am nifer o resymau.

Sefydlwyd yr elusen yn 1860, a medrwn gynorthwyo ffermwyr a gweithwyr amaeth, dros dymor byr: er enghraifft yn dilyn salwch, damwain, profedigaeth, teulu'n chwalu, neu glefydau ar anifeiliaid. Gallwn, yn ogystal, gynnig cymorth hir dymor i bobl hŷn, pobl sydd wedi ymddeol o'r diwydiant amaeth, a phobl anabl o bob oed.

Mae'r elusen yn medru trefnu grantiau'n gyfrinachol i deuluoedd neu unigolion sy'n gysylltiedig â'r byd amaeth os ydy hi'n fain arnyn nhw. Rhaid i bob darpar ymgeisydd fod wedi ffermio am o leiaf 10 mlynedd, a heb gynilion dros £10,000.

Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys cyngor ar fudd-daliadau'r wladwriaeth, grantiau rheolaidd, neu daliadau brys. Gallwn helpu gyda biliau cyfleustodau, gan gynnwys olew gwresogi yn y gaeaf, a nifer o gostau eraill sy'n ymwneud â'r teulu a'r cartref. Gallwn hefyd dalu am offer arbenigol, nwyddau hanfodol cartref, a chostau teithio i'r ysbyty. Rydym yn asesu pob cais a dderbynnir gennym yn drylwyr. Os yw'r ymgeisydd yn gymwys i dderbyn cymorth, byddwn yn teilwra'r cymorth yn unol â'r angen. Rydym weithiau'n gallu cynorthwyo gyda ffioedd cartrefi gofal, a chostau cymorth-cartref pan fo angen.

Nid yw R.A.B.I. ar unrhyw gyfrif yn talu biliau busnes y fferm, ond gallwn dalu am staff: er enghraifft, pan fydd rhywun yn methu â gweithio oherwydd salwch neu ddamwain. Rydym yma i gefnogi pobl, nid busnesau aflwyddiannus.

Mae Cynllun y Porth (Gateway) yn gallu talu am hyfforddiant i alluogi pobl i ddatblygu sgiliau i gael gwaith oddi ar y fferm, er mwyn ychwanegu at incwm y fferm.

Mae gwasanaeth R.A.B.I. yn gwbl gyfrinachol. Am resymau amlwg, mae'r bobl rydym yn eu helpu yn annhebygol o ddweud wrth eraill am y cymorth a gânt.

Os ydych yn credu y gallwn ni eich cynorthwyo chi, cysylltwch drwy radffôn cyfrinachol 0300 3037373, neu e-bostiwch grants@rabi.org.uk

Am ragor o wybodaeth ynghylch gwaith R.A.B.I. mae croeso i chi gysylltu â Linda Jones ar 01559 364850 neu 07557 363016.

*Cofio un o Ddarllenwyr Yr Angor*

## Mona Jones, Weston Rhyn

*gan ei Gweinidog*



Ganwyd Mona yn ardal Cegidfa, Sir Drefaldwyn, a chadwodd gysylltiad â'r ardal ar hyd ei hoes a pharhâi i fynychu'r capel yno, o dro i dro. Pan oedd yn gymharol ifanc symudodd y teulu, Stanley a Maggie Jones a Mona, i Gefn Canol, Nantyr.

Yn un ar bymtheg oed symudodd y teulu i'r Dongre, Bronygarth. Yma yr oedd Mona i fyw am weddill ei hoes heblaw am y flwyddyn olaf. Y mae degau o bregethwyr wedi derbyn croeso i ginio neu i de yn Dongre dros y blynyddoedd. Gwnai i bob un deimlo'n gartrefol yn ei dull diffwdan ond cynhesol unigryw ei hun.

Ar ôl i gapel Bronygarth gau daeth yn aelod yn Weston Rhyn lle y parhaodd i gyfrannu i fywyd yr eglwys am weddill ei hoes. Dysgodd plant yn yr ysgol Sul lle y cafodd y teitl 'Miss Mona'. Codwyd hi yn flaenores yn 1986 a gwasanaethodd fel ysgrifennydd am flynyddoedd. Roedd Mona yn un gywir ei chred a'i hymarweddiad. Gallai ddangos ei meddwl a'i theimlad os na chytunai ar ryw fater ond parhai ei pherthynas ag eraill yn annwyl a dirwystr. Yn aml ei dull oedd dweud 'Sori, ond .....'. Nid oedd dim drwgdeimlad ond dywedai ei meddwl yn onest bob amser. Ymhob peth y gwnâi, dangosai yr un trefnusrwydd, manylder, ffyddlondeb a rhadlonrwydd. Dwylo diogel oedd dwylo Mona bob amser.

Un eang ei diddordebau oedd Mona er bod achos Iesu Grist yn cael y flaenoriaeth ganddi. 2014 oedd y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer iddi orfod colli Sasiwn Genhadol Y Merched. Ysgrifennodd lythyr i ymddiheuro. Bob mis ysgrifennodd bwt i'r 'Wren', sef cylchgrawn pentref Weston Rhyn, ar ran y capel. Roedd y cyfraniadau hyn yn olau ac yn aml yn efengylaidd eu naws. Ni chollodd Eisteddfod Powys dros flynyddoedd lawer. Yn fregus ei hiechyd llwyddodd i fod yn bresennol yn Dolywern y llynedd ar y nos Wener a thrwy'r dydd Sadwrn hyd y diwedd. Hoffai fynd i'r Ganolfan Arddio yn Cegidfa a threulio amser wedyn yn Siop Lyfrau Cymraeg Y Trallwng. Os byddai tŷ neu fferm ar werth byddai'n siwr o fynd i'r ocsiwn yn Y Trallwng neu yn Y Lion Quays. Roedd hefyd yn aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Nid oedd ar Mona ddim cywilydd o'r Arglwydd na'i achos. Nid oedd yn berson gwahanol mewn cwmni gwahanol. Cafodd gystudd blin dros fisoedd olaf ei bywyd. Er hynny dangosodd ddewrder mawr ac ni chlywais hi'n cwestiynu. Hoffai hel atgofion. Deuai wên hyfryd i'w hwyneb ac ar adegau chwerthin iachus. Holai hynt a helynt hwn a'r llall a dweud yn dda amdanynt.

Collasom gydweithwraig brofedig a brwd. Beth a wnawn hebddi? Diolch i Dduw amdani.

***David G. Owens, Ponciau***

Myfyrdod

# MAGGIE MAY

gan Elwyn Parry

Hen athrawes Hanes oedd Maggie May ac wedi bod yn byw yn yr hen ardal ers blynyddoedd ond erbyn hyn mewn cartref preswyl ac yn dioddef o'r cancr. Bum yn ei gweld droeon gan ein bod ers talwm yn byw drws nesaf i'n gilydd. Wedi siarad am hwn a llall a "cerdded eto yr hen lwybrau" dyma hi'n gofyn "Ydy Duw wedi ein gadael"? Cefais sioc at y cwestiwn oherwydd doedd dim amheuaeth gennyf nad oedd yn colli ffydd oherwydd bod ei bywyd ynghlwm wrth "y pethau". Roedd rhai yn y cartref yn dweud ac heblaw hynny roedd yn dioddef yn enbyd oddiwrth y cancr. Heblaw hyn roedd wedi cael gwybod, oherwydd y tywydd garw o wynt a glaw o hyd, bod ei chartref o dan ddŵr y llifogydd. Beth fedrwn wneud ond mynd eto ar hyd "llwybr Huws y Gweinidog" a mynd i weddi fach ac addo dod eto'n fuan?

Doedd y tywydd ddim help chwaith hefo gwynt a glaw yn feunyddiol ac ar y pryd ryw gynhadledd yn sôn am "climate change" a 'jet stream" ddim yn byhafio a dwn i ddim beth i gyd ac ar ben hyn roedd economi'r byd a'r wlad yn achosi pryder! Serch hyn i gyd, mae fy Ffydd yn dweud wrthyf beth bynnag ddywed gwybodusion byd, athronwyr, gwleidyddwyr ac wrth gwrs gwyddonwyr, does dim amheuaeth gen i fod yna "Supreme Intelligence" ac i mi – DUW YW EI ENW. Eisteddwch ac edrychwch ar yr hen fyd yma a beth a welwch? Poen a phechod yn gyffredin tu hwnt, ac medda nhw sut y gall Bod Dwyfol yng ngwyneb byd sy'n llawn stormydd a llifogydd, clefydau, newyn a lladd creulon gyda rhyfeloedd di-baid adael i hyn ddigwydd? Tybed bod Awdwr Bywyd wedi troi'n amherffaith? Oes yna ateb?

Cofiaf gydag annwyldeb Anti Laura ac Yncl Ben. Ben, hen filwr Rhyfel Byd Cyntaf ac yn dod o Ffrainc wedi cael nwy yn y frwydr. Laura yn ei fagu i wellhad. Aeth Ben i weithio i bwll glo Cymmer am flynyddoedd ond fel aeth amser ymlaen roedd y "llwch" yn ddistaw bach yn ymgartrefu yn ei ysgyfaint. Yn ei wely eto a Laura yn tendio arno ddydd a nos ond mynwent Llethr Ddu, Trealaw oedd diwedd y gân. Laura yn ei dagrau yn sôn am ddioddefaint Ben "Yr adeg yma dros y blynyddoedd, mor bendithiol oherwydd dros yr adeg yma fe welodd Ben a finnau maint y cariad oedd rhyngom ac yn wir mae wedi cadarnhau fy ffydd."

Ai'r blynyddoedd yn eu blaen ond un dydd wrth feddwl am Ben fe gofiais am ran o bregeth Parch. G. H. Jones Blaenclydach, hen lowr ac yn gwybod am y gymuned yn y Rhondda — "Fy mhlant i, wrth yfed cwpan dioddefaint i'r gwaelod yr ydych yn goroesi y treial fwyaf fedr Duw roi i chi. Beth wedyn? Edrych i fyny a gweld maint eich bai a sylweddoli eich bod yn gwybod dim ac eich bod yn ddim a gweld mor ddiwerth ydy bywyd hebddo Ef." Dywedodd Mam wrthyf lawer tro nad oedd Duw yn cysgu ac i ddal fy ngafael a chofia fe ddywedodd Duw wrth Jacob "ni'th adawaf yn unig" Dywedodd J. B. Phillips wrth drosi geiriauPaul yn2 Corinthaid 4 "We never have to stand it alone – we may be knocked down but we are never knocked out". Es yn ôl at Maggie May a dywedais wrthi i ddal ei gafael ac adroddais iddi emyn Herber bod Cariad Duw fydd eto'n arwain, Cariad mwy na chariad Mam. "Ie",'oedd ateb Maggie May, "mae O hefo ni o hyd onid yw"?

# O ARCHIF Y RHYFEL BYD CYNTAF

**Ysgrifau Amanwy, brawd Jim Griffiths**

* * * *

## Deigryn Atgof am Wil Coslett

**gan D.R.G**

Wedi hir bryder, daeth y newydd blin o'r diwedd fod y milwr William Coslett Evans wedi syrthio ar gadfeysydd Ffrainc. Un o anwyliaid pentre'r Betws oedd ef, a chwith yw meddwl na chawn glywed ei gyfarchiad llon, na chanfod y wên chwareus honno ar ei wyneb byth mwy.

I mi, yr oedd Coslett yn fwy na ffrind. Magwyd ni yn yr hen bentref cyn i dwrf masnach dorri ar hud y fro, a phan nad oedd ond dwsin o dai o Bentwyn i Bant-y-Betws. Nid oedd gwiwer yn y Wern-ddu na wyddem am ei nyth, ac nid oedd grych yn Nant-y-ffin na fuom yn ei chwilio am frithyll yn nyddiau digwmwl ieuenctid.

Daeth galwad arnom i wynebu'r lofa cyn hir, a theithiasom yn hir yng nghwmni ein gilydd i hen Waith y Parc. Ymhen amser, ysgarwyd ni gan wahanol amgylchiadau bywyd, eithr ni chrwydrodd yr un cwmwl dros heulwen ein serch cynefin, a pharhaodd y cyfeillgawrch a seiliwyd gan droeon direidus gwanwyn hyd y diwedd.

Pan ddaeth Coslett yn ôl o'r ffosydd, rhaid oedd cael cwrdd croeso iddo, a chwrdd i'w gofio a fu. Daeth adref eilchwyl, wedi ei glwyfo o frwydr erwin Loos, a chafodd gwrdd croeso y tro hwnnw yn eglwys Gellimanwydd. Cofiaf y deigryn a lithrai o gil ei lygad wedi clywed ohono eiriau caredig y Parch. Tegfan Davies, y gweinidog, ac yntau yn perthyn i deulu'r mab afradlon. Diolch am ambell fonheddwr a all siarad iaith calon wrth galon, gan roi angerdd enaid mewn ysgydwad llaw.

Nid oedd Coslett yn grefyddwr yn ystyr gyffredin y gair. Treuliai ei Suliau ar lethrau'r mynydd, yng nghmwni adar ac awel, blodau y meysydd a mân ddail y coed, ac roedd ei galon ehanged â bywyd natur ei hun. Onid oedd ei haelioni caredig yn chwedl drwy'r fro? Rhannai ei geiniog olaf yn llawen â'r crwydryn tlotaf a gerddai'r heol. Bu'n ffyddlon i'w fam a'i hen gartref drwy ei oes, a mawr yw'r hiraeth ar ei ôl. Cofiaf ei ffarwel olaf, a'i her ddireidus, na chawsai'r un o'r Ellmyn ei ben ef i lawr. Eithr yn wahanol y bu, ac mae'r hen ardal yn dlotach o'i golli.

Pêr fo'th hun, Coslett annwyl, ym mro'r estron. Daw'r gaeaf â'i gorwyntoedd hyd lannau Aman, ond ni chawn dy gwmni mwy. Melys yw pob atgof amdanat, a phan dyr y bore wawr ar hanes dynoliaeth, pwy a faidd amau na chawn gwrdd i ddifyr sôn am y 'lle buom yn gware gynt' mewn bro 'lle mae'r awel fyth yn dyner, lle mae'r wybren fyth yn glir'. I mi y blodeuglwm tlysaf a ellir ei roddi ar dy fedd yw hwn o eiddo prif faledwr yr oes i gymeriad tebyg i'th eiddo di: –

*He warn't no saint – but at judgment*
*I'd run my chance with Jim*
*'Longside of some pious gentleman*
*That wouldn't shake hands with him.*
*He'd seen his duty a dead sure thing,*
*And went for it thar and then;*
*And Christ ain't a-goin' to be too hard*
*On a man that died for men.*

11 Hydref 1917



* * * *

**Coslett**

Ebe ffrind wrthyf y dydd o'r blaen wrth sôn am Wil Coslett Evans: 'Dyna allu a fuasai Coslett pe bai yn perthyn i'r eglwys'. Trawodd y syniad fi, a daeth mil o atgofion rhwng deigryn a gŵen i'r fynwes am fy hen gyfaill. 'Gwyn ei byd y galon gariadus', ebe rhywun, ac roedd calon gwaredydd gan Coslett, beth bynnag oedd ei wendidau. Pêr fo'i hun ym mro'r estron. 'And e'en his failings leaned to virtue's side'.

*Dychwelodd yr haf ar ei dro*
*Drwy'r dyffryn yn ysgafn ei droed,*
*Gan alw y gerdd fu ar ffo*
*Yn ôl i orielau'r coed.*
*Ond rhywfodd nid ydyw mor swynol a chynt:*
*Ni chlywir dy chwerthin ar adain y gwynt .*

*Mae eithin yr Ynys ar dân,*
*A banadl yr Argoed yn fflam,*
*A'r fronfraith yn offrwm ei chân*
*Ym mlodau afallen dy fam;*
*Ond prudd yw y blodau a lleddf yw y gainc*
*Wrth gofio dy feddrod dienw yn Ffrainc.*

*Mae'r pysgod yn llamu yn rhyd*
*Nant Cathan dryloyw fin nos;*
*Ac ambell gwningen o hyd*
*Yn pori rhwng rhedyn y rhos.*
*Ond nid yw yr heliwr buanaf ei droed*
*Yn galw ei filgi i wynfa y coed.*

*Mae bechgyn yr ardal wrth fynd*
*I'r lofa dros goedcae a lôn,*
*Yn holi amdanat fy ffrind,*
*Yn drist ac hiraethus eu tôn.*
*A throeon dy fywyd yn mynd ar eu tro*
*I wynnu yr oriau yn nüwch y glo.*

*Myn hiraeth tan bwys ei dristâd*
*A dagrau ei siom ar ei wedd,*
*Roi tro i ryferthwy y gad*
*I chwilio am fangre dy fedd.*
*Er plannu briallen o lan Nant-y-ffin*
*I harddu dy goffa yn anterth y drin.*

*26 Medi 1918*

* * * *

*Haelioni Anhygoel*

# APÊL MIMOSA MAI 2015

Y mae angen cyfalaf i godi y Cofadail i gofio arloeswyr y llong Mimosa (1865-2015) ar lan y Merswy yn ymyl Doc Princes ac i'w ddadorchuddio ar bnawn Sadwrn, 30 Mai am 3 o'r gloch. Erbyn hyn cyhoeddwyd y rhestr gyntaf (yn *Yr Angor* (Rhag/Ion) a'r ail yn rhifyn Chwefror a dyma'r trydydd rhestr.

**Y TRYDYDD RESTR (i 2/2/2015)**

i) Mr Ceris Gruffydd, Penrhyncoch, Ceredigion
(Ysg. Cymdeithas Ariannin-Cymru) ....................................... £25
ii) Mrs Hannah Jones, Tywyn, Gwynedd ................................... £20
iii) Miss Val Hillier, Lerpwl 25 ................................................... £25
iv) Undeb Annibynwyr Cymraeg,
Tŷ John Penry, Abertawe .................................................... £100
v) Dr. Lowri Williams, Caerdydd ............................................... £20
vi) Miss Carys Willams, Llundain a Lerpwl .............................. £20
vii) Dr. Glynn Morris, Altrincham .............................................. £25
viii) Clwb Rotary Tref Frenhinol Caernarfon ........................... £100
ix) Eglwys Bresbyteraidd Bethania, Crosby Road South,
Waterloo ................................................................................ £150
x) Hywel a Margaret Roberts, Ffordd Bethel, Caernarfon .......... £50
xi) The Makin Charitable Trust (trwy law E. Rex
Makin, Lerpwl) ...................................................................... £250
xii) Dafydd Llewelyn Rees, West Hampstead, Llundain ............ £50
xii) Dr. Bethan Rees a Hefin Rees, QC, Harpenden,
Swydd Herts ........................................................................... £50
xiv) Cymdeithas Cymry Lerpwl
a) Noson Cwis a Gwin ar aelwyd Roderick a Norman Owen,
Maeshir (£171)
b) Noson Coffi ar aelwyd Alan a Margaret Anwyl Williams,
West Allerton, Lerpwl (£154)
.................................................................................. Cyfanswm £325
xv) Mrs Margaret E. Jones, Mynydd y Fflint, Fflint .................. £20
xvi) John a a Marian Lyons, Pentref Knowsley ....................... £100
xvii) Alun R. Pari Huws a D. Pari Huws, Craig y Don,
Llandudno ............................................................................. £25
xvii) Yr Athro Huw Rees, Boncath, Sir Benfro a Lerpwl ......... £100
xix) Iorwerth a Beryl Willams, Allerton, Lerpwl ....................... £25
xx) Eurfryn G. Davies a Siân A. Davies, Llandegfan, Môn ........ £50
xxi) Mrs Mona Bowen, Trefechan, Aberystwyth ....................... £25
xxii) Mr Allington R. Jones, Mynydd y Fflint, Fflint ................ £10
xxiii) Mrs Gwenfyl Bain, Allerton, Lerpwl ................................ £20
xxiv) Mrs Lilian Coulthard, Aigburth Vale, Lerpwl ................... £20
xxv) John Wynne a Nan Jones, Biwmaris, Môn ........................ £20
xxvi) Bob a Glenys Jones, Prenton, Penbedw ............................ £30
xxvii) Mrs Eirwen Sargent, Cilgwri ........................................... £25
xxviii) Dr. Pat Williams, Allerton, Lerpwl ................................. £50
xxix) Mrs Siân Spink, Newton-le-Willows ................................ £30
xxx) Mrs Nan Hughes-Parry, Woolton ....................................... £50
xxxi) Mrs Elizabeth Owen, Halewood, Lerpwl .......................... £30
xxxii) Miss Mair Powell, West Derby ........................................ £50
xxxiii) Miss Megan Roberts, Bebington .................................... £25
xxxiv) R. J. a Eunice Powell, Prenton, Cilgwri .......................... £20

Dyma restr i godi calon Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi. Ni feddyliais y byddwn yn agos i'r nod o dalu am y Gofeb erbyn Gŵyl Ddewi. Y mae angen o leiaf £800 cyn 1 Mawrth ond y mae gennym dreuliau eraill i gynnal yr ŵyl ond yr wyf fel Cadeirydd yn hyderus y cawn rhoddion eto gan i mi dderbyn addewidion wrth baratoi y rhestr hon.

Anfoner y cyfraniadau yn enw **Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi / Merseyside Welsh Heritage Society** i 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW.

Daw y pedwerydd rhestr yn rhifyn mis Ebrill o'r Angor.
ar ran y Pwyllgor Gwaith.

*Llawer o ddiolch*

***D. Ben Rees (Cadeirydd)***

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

**i) Anfoner rhoddion at Yr Angor i'r Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA. Cydnabyddir yn y golofn Cornel y Trysorydd.**

**ii) Deunydd i'r rhifyn nesaf – erbyn bore Sul, 1 Mawrth yn y Gwasanaeth Dinesig y Cymry ym Methel neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu i 32 Garth Drive, L18 6HW.**


**iii) Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yn wythnosol) a www.Cymry-Lerpwl.co.uk

# LLONGYFARCHIADAU I DEULU O GYMRY O ALLERTON


Llongyfarchiadau i Hywel a Leanne Care wedi eu priodas ym Mharc Nagoya, Siapan mis Awst diwethaf. Mae Hywel yn fab i Graham a Mallt Care, Allerton ac yn gweithio fel athro Saesneg, fel Leanne, yn Siapan.

Llongyfarchiadau i Ieuan Care hefyd sydd wedi cael gradd fel Meistr mewn Hanes a Gwleidyddiaeth o Brifysgol y Frenhines Mair, Llundain. Mae'n gobeithio cael swydd mewn gwleidyddiaeth.

Cawn glywed am lwyddiant Angharad Care, chwaer Hywel a Ieuan mewn rhifyn arall o'r 'Angor' .



*Ieuan Care*



*Hywel a Leanne Care*

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

**PEARSON COLLINSON**

***TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL***

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514